

# YR ESBLYGIAD DIGIDOL

## - A YDYCH CHI YN DATBLYGU YR UN MOR GYFLYM?

### Cynhadledd Hyfforddiant Undydd

#### Ar gyfer Rheolwyr Uwch a Gweithwyr Proffesiynol

Ble: Canolfan Gynadledda Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, Caerdydd, CF15 7QQ

Pryd: 18 Ebrill 2016

Amser: 9am tan 4pm

Cost: £120 fesul cynrychiolydd

Rydym yn byw mewn byd sy'n gynyddol gysylltiedig, gan glicio ychydig fotymau yn unig er mwyn troi at ffrindiau, rhwydweithiau proffesiynol, cynnwys, meddalwedd a gwasanaethau y maent yn annychmygol hyd yn hyn.

Mae'r gynhadledd undydd ryngweithiol hon, a ddarparir gan Dr Sangeet Bhullar, yn cynnig trosolwg a dirnadaeth o'r ffyrdd y mae'r technolegau digidol a rhyngwyd hyn (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol) yn esblygu, a sut y mae modd defnyddio'r technolegau hyn mewn ffordd bersonol a phroffesiynol, ac er budd sefydliadol.

Gan roi sylw i themâu allweddol 'Y We Gymdeithasol', 'Datblygiad Proffesiynol Digidol' ac 'Enw da Ar-lein', bydd y gynhadledd ryngweithiol hon yn cynnwys arddangosiadau mewn arddull dosbarthiadau meistr, astudiaethau achos, gwaith grŵp myfyriol a 'blogio byw' er mwyn arddangos sut y mae modd defnyddio technolegau ac offerynnau ar-lein mewn sefyllfaedd go iawn.

## Ymarferion rhyngweithiol | Arddangosiadau yn 'arddull Dosbarthiadau Meistr' | Gweithgarwch grŵp ymarferol | Creu cynnwys

### Y We Gymdeithasol – Deall y Tirlun

Cael dirnadaeth o'r ffordd y mae'r rhyngwyd a thechnolegau ar y we yn esblygu, a sut y mae modd i chi a'ch sefydliad gan budd o:

- Blatfformau cyfryngau cymdeithasol – enghraifft: YouTube, Instagram, Twitter, Pinterest a Facebook.
- Offerynnau blogio aml-gyfrwng (ymgysylltu cynnwys fideo, sain a sioeau sleidiau).
- Adnoddau a gwasanaethau ar y we am ddim ac wedi'u seilio ar dechnoleg cwmwl.
- Technolegau VOIP megis Skype a Google Hangout.
- Platfformau e-ddysgu.

### Datblygiad Proffesiynol Digidol – Cynyddu Eich Sgiliau

Cael dirnadaeth o ddefnydd effeithiol technolegau rhyngwyd cymdeithasol, cydweithredol a chreadigol.

- Darganfod tueddiadau digidol newydd a'r goblygiadau i unigolion/sefydliadau.
- Ysbrydoli ac ymgysylltu staff a defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio cyfryngau digidol.
- Cael profiad o 'flogio byw' er mwyn gweld sut y mae modd creu a rhannu cynnwys yn hawdd.
- Deall sut i drefnu a churadu cynnwys ar-lein.
- Dysgu sut i ddarganfod gwybodaeth newydd, defnyddio adnoddau a rhwydweithiau ar-lein er mwyn bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf.
- Darganfod offerynnau effeithiol er mwyn darparu e-ddysgu, mentora a gwasanaethau eraill ar-lein.

## Enw Da Ar-lein – Datblygu a Rheoli'ch Ôl Troed Digidol

Hyrwyddo a rheoli eich presenoldeb unigol a sefydliadol ar-lein mewn ffordd broffesiynol.

- Deall proffesiynoldeb digidol a materion y maent yn ymwneud ag enw da ar-lein.
- Ystyried 'wyneb dynol' ar-lein eich sefydliad, a'r adnoddau y mae eu hangen er mwyn hyrwyddo'ch sefydliad.
- Dysgu sut i hyrwyddo'ch sefydliad ar-lein mewn ffordd effeithiol, gan ddefnyddio amrediad o weithgarwch creu cynnwys, rhwydweithio ac offerynnau/ gwasanaethau cymdeithasol ar y we (cynigir enghreifftiau ac astudiaethau achos).
- Dysgu sut i gynnwys 'arferion digidol' effeithiol yn eich gwaith datblygu sefydliadol.
- Deall materion cyfreithiol ac arfer gorau er mwyn defnyddio platfformau cymdeithasol mewn ffordd ddiogel a phroffesiynol (cynigir enghreifftiau ac astudiaethau achos).
- Creu cynllun gweithredu drafft er mwyn helpu eich sefydliad i gael budd o'r rhyngwyd a thechnolegau digidol.

### Dysgu am yr Esblygiad Digidol

Erbyn diwedd y gynhadledd, bydd y cynrychiolwyr wedi cael dirnadaeth newydd o 3 maes allweddol sy'n ymwneud â'r Esblygiad Digidol: Y We Gymdeithasol, Datblygiad Proffesiynol Digidol ac Enw Da Ar-lein.

**Yn ogystal, bydd y cynrychiolwyr wedi paratoi cynllun gweithredu sefydliadol drafft i'w weithredu yn y gweithle.** Bydd y cynllun gweithredu yn eu galluogi i ganolbwyntio ar y strategaethau y maent yn anghrheidiol er mwyn arloesi ac ymgorffori defnydd effeithiol o wasanaethau/platfformau ar-lein er mwyn sicrhau mantais broffesiynol a sefydliadol.

### Offer Angenrheidiol

Er mwyn sicrhau bod cynrychiolwyr yn cael y budd mwyaf o'r gweithgareddau rhyngweithiol a grŵp, gofynnir iddynt ddod â'u ffonau symudol a'u llechi eu hunain gyda nhw (gyda Google Chrome wedi'i osod arnynt).

### Am yr Hyfforddwr a 'Digital and People'

Dr Sangeet Bhullar yw sylfaenydd 'Prosiect Digidol a Phobl', sy'n gweithio gyda sefydliadau a gweithwyr proffesiynol er mwyn datblygu eu cymhwysedd digidol ac er mwyn rhoi 'mantais ddigidol' iddynt. Yn ogystal, sefydlodd 'WISE KIDS', cwmni di-elw sy'n hyrwyddo Defnydd Arloesol, Cadarnhaol a Diogel o'r Rhyngwyd ymhlith pobl ifanc a'r rhai y maent yn gweithio gyda nhw. Mae Sangeet wedi datblygu a darparu rhaglenni hyfforddiant, prosiectau ymchwil a chanllawiau ysgrifenedig, mae wedi cynghori ysgolion a sefydliadau ac mae wedi siarad mewn cynadleddau rhyngwladol ynghylch Llythrennedd Digidol ar gyfer yr Economi Wybodaeth, Llythrennedd Digidol ym myd Addysg, Ieuencid a Dinasyddiaeth Ddigidol a Diogelwch Ar-lein.

### I Archebu eich Lle

I gadw lle yn y gynhadledd undydd hon, cofrestrwch ar <https://digitalevolution.eventbrite.co.uk>. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, a fydddech gystal ag anfon e-bost at [events@digitalandpeople.co.uk](mailto:events@digitalandpeople.co.uk)

